

Cofnodion Cyfarfod 22ain Medi 2020

Presennol :- Y Cadeirydd **Gareth Griffiths** a'r Cynghorwyr, Elfed Wyn Williams, Phyllis Ellis, Jane Pierce, R. Hefin Williams, Rhian Evans-Hill
Croesawyd Y Cynghorydd Elwyn Jones

Ymddiheuriadau.

Richard Ll. Jones, Idris Thomas, Lowri Hughes, Emma Chappell ac Aled Green

Croeso

Rhodddwyd gair o groeso i bawb yn dilyn cyfnod pryderus yn ystod amser na all y Cyngor gyfarfod. Nodwyd fod sawl un wedi colli anwyliaid yn ystod y misoedd a fu, sawl un o'r gymuned wedi bod trwy salwch, ac mae aelodau'r Cyngor yn anfon ein cofion at y teuluoedd hynny. Mae'r Cyngor trwy'r clerc wedi gweithredu'r materion hynny a ddaeth i sylw cynghorwyr o fewn pentrefi. Mae hynny wedi ei nodi yn glir gan y clerc yn ei chofnodion hi o'r gweithgareddau a materion a ddaeth i sylw yn y nodiadau sydd wedi eu derbyn.

Er mwyn gallu cynnal y cyfarfod rydym wedi prynu Trwydded Zoom gan y rhagwelir bydd defnydd am gyfnod eto yn cael ei wneud drwy ein cyfarfodydd gael eu cynnal dros y we.

Datgan buddiant

Dim

Cofnodion Cyfarfod 3ydd Fawrth 2020

Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir

Elfed Wyn Williams (1)

Phyllis Ellis(2)

Materion o'r cofnodion

Addysg ôl 16 - Derbyniwyd ymateb gan Gyfarwyddwr Addysg yn datgan mai trafodaethau sydd yn mynd ymlaen ar hyn o bryd ynglŷn ag opsiynau 6ed dosbarth yn yr Ysgolion Uwchradd Arfon yn benodol.

Cofnodion Gweithgaredd Mawrth - Gorffennaf 2020

Derbyniwyd yn gywir.

Cofnodion Gweithgaredd Gorffennaf - Awst 2020

Derbyniwyd yn gywir.

Materion o'r cofnodion

Mapiau Llwybr - Derbyniwyd ymateb gan Gyngor Gwynedd yn nodi fod yna broses cyfreithiol a bod rhaid dilyn hyn yn gyhoeddus. Ond nid newid y llwybr sydd angen, mae'r llwybr yn gywir, y map sydd yn anghywir sef llwybr 73 a 74.

Llwybrau - Nodwyd fod sawl llwybr wedi eu cerdded yn ystod y 6 mis gan y cyhoedd. Mae

hyn yn gyfle gwych i gael gwybodaeth ar gyflwr llwybrau'r plwyf, a gwahoddir y cyhoedd i gysylltu â'r clerc neu eich cynghorydd cymunedol er mwyn i ni allu gwella a sicrhau fod mynediad rhydd i lwybrau'r gymuned.

Gohebiaethau a Materion Eraill

Cysgodfa Bws Rhydfadog - Nodwyd fod syniad o bosib drwy grant Llechi wedi dod i roi hysbyseb ar waelod cysgodfa Bws yn Rhydfadog. Nododd y clerc efallai na fuasai hynny yn bosib oherwydd bod gan Wynedd bolisi yn erbyn hysbysebu ar gysgodfanau bws. Y clerc i holi yn iawn erbyn y cyfarfod nesaf.

Cynllunio

Ceisiadau a dderbyniwyd yn ystod y mis:

Cymerau, Bethel C20/0692/18/DT

Estyniad Un llawr ar y talcen deheuol. - Dim Gwrthwynebiad

Awdit Mewnol

Yn ystod y cyfnod clo, bu i'r clerc allu derbyn Awdit Mewnol trwy wasanaeth Cyngor Gwynedd, a diolch iddynt am wneud hynny yn drwyadl mewn amser anodd. Cyflwynwyd adroddiad cyflawn yn dilyn adolygu trefniadau ariannol a llywodraethau'r cyngor. Roedd yr archwiliad yn ymgymryd à rhaglen waith yn seiliedig ar asesiad o risg. Yn sgil covid 19 ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, rhaid cydnabod fod angen i'r Cyngor wyro o'r rheoliadau sefydlog er sicrhau parhad busnes ac er lles cynghorwyr, a thrigolion yr ardal.

Nodwyd fod darganfyddiad yr awdit yn dangos fod y rheolaeth a brofwyd ac a gafwyd yn foddhaol. Datganwyd fod sicrwydd yn nhrefniadau llywodraethu a datganiadau Cyngor Cymuned Llanddeiniolen am y flwyddyn 2019 - 2020.

Ffurflen Flynyddol

Roedd y Clerc wedi paratoi'r Ffurflen Flynyddol, ac yn dilyn derbyn awdit mewnol, penderfynwyd derbyn y Ffurflen ac i'r clerc trefnu gydag Archwilwyr allanol i dderbyn awdit. Diolchwyd i'r clerc am ei Gwaith yn y maes yma eto eleni.

Mantolen Ariannol 6 mis Awst 2020

Nodwyd fod y fantolen yn gywir, ond nid oes llawer o wariant wedi bod yn amlwg yn ystod y cyfnod clo. Cymerwyd y cyfle i drafod strwythur rhoddion i fudiadau eleni. Nodwyd yn benodol efallai y buasai rhaid meddwl am ddioli yn wahanol. Mae rhai mudiadau ddim yn cyfarfod, a rhai gyda chostau cynnal a chadw a dim incwm yn dod i mewn oherwydd rheolau gan y Llywodraeth yn dilyn y pan demig.

Penderfynwyd estyn diwrnod cau i geisiadau tan y 25ain o Hydref a thrafod yng nghyfarfod Tachwedd.

Seddi Gwag

Gyda thristwch, derbyniodd Y Cyngor lythyr ymddiswyddiad o'u sedd ar y Cyngor Cymuned gan Martin Davies Cynghorydd Cymunedol Brynrefail a Gwawr Wyn Roberts Cynghorydd Cymuned Clwt y Bont. Rydym yn ddiolchgar dros ben i'r ddau am eu gwaith di flino ac arbennig iawn a wnaethant i'w cymuned yn ystod eu cyfnod yn Gynghorwyr Cymunedol. Bydd bwlch mawr ar eu hol a phob dymuniad da i'r ddau.

Trefn Ceisiadau Cynllunio

Yn ystod y cyfnod clo, mae'r clercc wedi cynnal sawl cyfarfod gyda chynghorwyr i drafod ceisiadau cynllunio dros Zoom ar y we. Nodwyd fod hyn wedi bod yn effeithiol dros ben, a bod cofnod clir o dan yr amgylchiadau o bryd oedd y cyfarfod a'r penderfyniad er mwyn rhoi sylw teg i geisiadau cynllunio yn ystod y cyfnod. Penderfynwyd treialu hyn ar gyfer pob cais cynllunio rhwng rŵan a mis Ebrill cyn penderfynu ar bolisi.

O gwmpas y Bwrdd

Hefin Williams - Yn aml iawn mae pryderon sydd tu draw i'r gwaith mae'r Cyngor Cymuned yn gallu ei wneud, ac ar yr adegau yma, buasai yn well cysylltu ag aelod **seneddol yr ardal i godi ein problemau.**

Jane Pierce - Mae Grid Cenedlaethol yn y broses o fynd a'r beipen trydan trwy dir amaethyddol yr ardal yn hytrach nac ar hyd y lon o Groeslon Tŷ Mawr I Ben Ilyn. Tybed oes arian ar gael i'r gymuned oherwydd hyn.

Phyllis Ellis - Problem dŵr ar ochor y ffyrdd yn dilyn y glaw trwm yn ddiweddar. Yn enwedig ger yr Hen Ficerdy at Dan y Gaer a lawr yr allt.

Cadeirydd - Nôl ym mis Mawrth, cysylltodd Y Cadeirydd gyda phob Cynghorydd yn dilyn cais yn holi beth oedd Y Cyngor am wneud i helpu yn ystod y cyfnod clo. Yn dilyn cysylltu gydag Un Llais Cymru, awgrymwyd bod yn well gadael i'r Cyngor Sir arwain, ac nid oedd hawliau gan Y Cyngor Cymuned I ymrwymo eu hunain. Mi fuasai gofyn i bawb fod wedi cael DBS ynghyd a'r angen i wneud asesiad risg, a dyna pam na fu'r Cyngor yn helpu yn ystod y cyfnod clo.

Plant 6ed Dosbarth Bethel - Nodwyd fod problem wedi codi ym Methel gyda cherdyn teithio bws ysgol.

Rhiwlas - Cwch wedi parcio ar ochor y lôn ar dop yr allt ger yr Hen Eglwys. Mae yn beryglus iawn i deithwyr ac nid oes golau na dim arni.

Cyfarfod Blynyddol

Yn arferol, buasai ein Cyfarfod Blynyddol wedi bod ym mis Mai, felly penderfynwyd cynnal ein Cyfarfod Blynyddol ar y 3ydd o Dachwedd. Y clercc i hysbysebu yn Eco'r Wyddfa ac ar ein Gwefan.

Bydd Cyfarfod nesaf o'r Cyngor Cymuned Nos Fawrth 6ed Hydref 2020 am 7:00 ar Zoom

Cadarnhau Taliadau

518 – £143.88

519 –£ 616.00